



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 6 Tachwedd 2018 am 6.00yh
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 6 November 2018 at 6.00pm
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—**Y Cyngorwyr/Councillors** John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**), Clive Davies, Graham Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Richard Jones, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill, Trystan Phillips, Shan Williams, Mr Wynford Jones (*clerc/clerk*).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb i'r cyfarfod. Llongyfarchodd y Cyng. Trystan Phillips ar redeg Marathon Eryri gan godi arian at elusen clefyd Motor Neurone; yn yr un modd ymddangosodd y Cyng. Phillips fel organydd mewn rhaglen o "Dechrau Canu Dechrau Canmol" ar S4C yn ddiweddar. Diolchodd i'r Cyng. Clive Davies am ei ymdrechion i roi Aberteifi ar y map unwaith eto gyda chystadleuaeth "Gwobrau Strydoedd Mawr Prydain Fawr" – ceir canlyniad y gystadleuaeth ar 15 Tachwedd. Bu gwasanaeth "Cofio Arwyr y Rhyfel Byd Cyntaf" a gynhaliwyd yng Nghastell Aberteifi ar 3 Tachwedd yn llwyddiant ysgubol. Derbyniodd trefnydd y digwyddiad, Lefftenant Alun Richards, Wobr y Frenhines oddi wrth Miss Sara Edwards, Arglwydd Raglaw Ei Mawrhydi. Cyfeiriodd y Maer hefyd at lwyddiant Bwyty Crwst.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed everyone to the meeting. He congratulated Cllr Trystan Phillips on completing the Snowdonia Marathon in good time and thereby raising awareness for the Motor Neurone Disease charity. Cllr Phillips also featured prominently as the organist in a recent "Dechrau Canu Dechrau Canmol" programme on S4C. Cllr Clive Davies was thanked for once again putting Cardigan on the map as a result of the "Great Britain High Street Awards"; the result will be announced on 15 November. The "Remembrance of Heroes" event held at Cardigan Castle on 3 November was deemed a huge success. The organiser of the event, Lt Alun Richards, received the Queen's Commendation award from Her Majesty's Lord Lieutenant Sara Edwards. The Mayor also referred to the recent award received by "Crwst" restaurant.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllrs Siân Maehrlein, Wyn Jones

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Holl faterion cynllunio / All planning matters</i>
Y Cyng. / Cllr Clive Davies	<i>Cynllunio / Planning A180580 Cambrian Quay</i>
Y Cyng. / Cllr Richard Jones	<i>Cynllunio / Planning A180580 Cambrian Quay</i>
Y Cyng. / Cllr Shan Williams	<i>Cynllunio / Planning A180580 Cambrian Quay</i>

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 2 Hydref.

Confirmation of Minutes of 2 October Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill bod cofnodion cyfarfod 2 Hydref yn gywir.

Cllr Marilyn Farmer proposed that the 2 October council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Yvonne O'Neill.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 1411, eitem 9 (Biliau i'w talu): Oherwydd anghysondeb yn yr anfoneb, ni thalwyd bil Sutcliffe Play hyd dderbynnir anfoneb a datganiad wedi eu diwygio.

Page 1411, item 9 (*Bills to be paid*): Due to a discrepancy with the invoice, the Sutcliffe Play bill was not paid until a revised invoice and statement are received.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fis Hydref yn y cyfarfod.

The Mayor's Diary of Events for October was distributed at the meeting.

7. Cynllunio / Planning:

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A180935	Garage adjacent to Cardigan Boxing Club, Maes-yr-haf	Demolition of existing garage and rebuild (part retrospective) for domestic storage (not commercial).	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> Council has no objection.
A180997	46 St Mary Street	Change of use to full residential from part commercial part residential.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> Council supports the application.
A181041	Hazelhurst, 34 Feidrfair	Removal of chimney stack and make good the roof with matching slate tiles	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> Council has no objection.
A180580	Cambrian Quay	Refurbishment, extension and change of use of warehouse to include mixed-size development comprising of events space (<i>sui genesis</i>), enterprise zone providing mixed use at ground floor and hostel and spa treatment room at first floor (<i>sui genesis</i>).	

8. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
25/10/18	Brunel Engraving Co.: <i>Llechen i goffâu diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.</i> Brushed steel plaque to commemorate the end of the First World War to be placed alongside the war memorial.	A23	4627	£230.38 (38.38)
19/10/18	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (2/10/18)</i>	A18	4628	£70.80 (0.00)
1/11/18	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Hydref / October).</i> <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room 8 Hydref/October (Pre-Remembrance Meeting)</i> 10 Hydref/October (<i>Cyfarfod Blynyddol elusen Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed.</i> Annual General Meeting of the King George 5 th Playing Field charity) Cyfarfodydd y Cyngor / Council Meetings (2 & 16/10/18) <i>Band Lydan (Tachwedd) / Broadband (November)</i>	A9 A23 C3 A9 A20	D/D 4629 4629 4629 4629	£250.00 (0.00) £25.00 (0.00) £25.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 0.00

1/11/18	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Hydref / October)</i>	A5	4630	£763.03 (0.00)
13/10/18	HMRC: PAYE/NIC	A16	4631	£293.35 (0.00)
8/10/18	David Evans a'i Feibion: <i>Plac ar darian / Plaque for shield (D. Burton)</i>	B5	4632	£4.00 (0.67)
30/9/18	Argraffwyr E. L. Jones Printers: <i>Offer swyddfa / Stationery</i> <i>Labeli Wi-fi / W-fi vinyl labels (200)</i> <i>Arwyddion gwahardd cŵn / Vinyl Dibond signs (Pentop)</i>	A7 B8 C12	4633	£16.50 (2.80) £177.60 (29.60) £144.00 (24.00)
1/11/18	Society of Local Council Clerks: <i>Aelodaeth / Membership</i>	A12	4634	£147.00 (0.00)
15/10/18	<i>Cyngor Sir Ceredigion County Council: Deddf Hapchwarae 2005 / Gambling Act (Small Society Lotteries)</i>	A22	4635	£20.00 (0.00)
3/10/18	Newsquest: <i>Hysbyseb Cyfarfod Blynyddol yr elusen. Advert for King George 5th Playing Field charity AGM</i>	C3	4636	£86.94 (14.49)
6/11/18	Tomos Davies Farrier Ltd.: <i>Gwneuthurwr y pabi coch dur i'w osod ger y senotaff.</i> Manufacturer of the red, steel poppy to be placed alongside the cenotaph to commemorate the centenary of the end of the Great War.	A23	4637	£125.00 (0.00)
18/7/18	Sutcliffe Play: <i>Cyfarpar chwarae Pentop play equipment</i>	C12		£26,038.80 (4,339.80)
30/9/18	<i>Bachan Deche / Handyperson (Hydref / October)</i>	A19	4638	£376.0 (62.70)

Cynigiodd y Cyng. Debra Griffiths bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Steffan Morgan. Bydd y Cyng. Catrin Miles a'r clerch yn archwilio anfoneb Sutcliffe Play eto cyn ei dalu.

Clr Debra Griffiths proposed that the above bills be paid; this was seconded by Clr Steffan Morgan. Clr Catrin Miles and the clerk will again scrutinise the Sutcliffe Play invoice before finalising payment.

Derbyniadau/Receipts:

10/9/18	<i>Llog y Banc / Bank interest</i>	£2.78
31/10/18	<i>Cyngor Sir Ceredigion County Council (Praesept/Precept)</i>	£27,998.49

9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Cynhelir ymgyrch Pensiynau Menywod (Waspi Ceredigion) drwy'r sir hyd ddiwedd y flwyddyn. Mae sesiwn galw heibio i'w gynnal ar 14 Tachwedd yn Llyfrgell Aberteifi o 3:00-5:00yp i wneud cyn swyddogol am flynyddoedd coll ar bensiwn gwladol. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar www.waspicampaign2018.co.uk.
- (ii) Trafodwyd yr awgrym i gau Canolfan Croeso Aberteifi yn y Cabinet. Awgrymwyd bod y gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo i Gastell Aberteifi gyda swyddog rhan-amser. Mae swyddogion y Castell yn croesawu'r posibiladau o gynnal y gwasanaeth yn y cyntedd yno. Cytunodd y Cabinet gohirio'r penderfyniad dros dro. Fel ail dref y sir, teimlwyd bod angen brwydro i gadw'r gwasanaeth er mwyn y diwydiant twristiaeth. Bydd rhaid trafod yr elfen o staffio'r gwasanaeth hefyd.
- (iii) Cae Chwarae Pentop: Cafwyd adwaith calonogol gan blant a rheini sydd yn defnyddio'r cyfarpar yno. Mae defnydd da o'r cyfleusterau yn cymryd lle.

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Mae'r Cabinet wedi cytuno gyda'r awgrymiadau i ddiwygio cyfyngiadau parcio yn y dref, gyda rhagor o linellau melyn mewn manau trafferthus.

(a) Clr Catrin Miles:

- (i) Drop-in sessions will be held throughout the county to offer advice to the Women's Pension campaign (Waspi Ceredigion). To make an official complaint about lost years of State Pension, visit Cardigan Library on 14 November from 3:00-5:00pm. Further information is available on www.waspicampaign2018.co.uk.

- (ii) The Ceredigion County Council Cabinet discussed the recommendation to close Cardigan's Tourist Information Centre recently. A strong lobby suggested moving the service to Cardigan Castle employing a part-time officer. The Castle officers welcomed the move which would be located in the foyer. The Cabinet agreed to postpone its decision until more information is available. As the second county town of Ceredigion, it was felt that keeping the TIC in Cardigan is paramount for the success of the tourist industry in the area.
- (iii) Pentop Play Area: A good response has been received from children and parents who use the play area which is proving to be very popular.

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) The county council Cabinet has approved the recommendations to improve parking facilities in Cardigan and to place yellow lines in hazardous areas.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
144	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure – Pendre, Rhos y Coleg, Ffordd y Gogledd, Ffordd Gwbert (B4548), Maes-yr-haf, Stryd y Baddondy, Maes Greenfield.</i> Pendre, College Row, North Road, Gwbert Road (B4548), Maes-yr-haf, Bath House Road, Greenfield Square. 11/11/18, 10:40-11:40am <i>Gorymdaith Sul y Cofio / Remembrance Sunday Parade</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 23 Hydref.</i> Forwarded to all councillors on 23 October.
145	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure – Stryd Fawr, Pendre, Rhos y Coleg, Stryd Wiliam, Pwllhai, Stryd y Priordy, Stryd y Santes Fair, Lôn y Moch.</i> High Street, Pendre, College Row, William Street, Pwllhai, Priory Street, St Mary Street, Chancery Lane. 06:00-00:00 10/11/18 <i>Ffair Aberteifi / Cardigan Fair</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 16 Hydref.</i> Forwarded to all councillors on 16 October.
146	CSC / CCC (Eifion Evans): <i>Ymddiheuriadau oddi wrth Gadeirydd y Cyng Sir (Y Cyng. Hag Harris) a'r Arglwydd Raglaw Ei Mawrhydi yn Nyfed, Miss Sara Edwards am eu habsenoldeb o wasanaeth Sul y Cofio eleni.</i> Apologies from the Chairman of Ceredigion County Council, Cllr Hag Harris, and Her Majesty's Lord Lieutenant of Dyfed Miss Sara Edwards for their unavailability to attend the Remembrance Sunday Service this year.	<i>Cafwyd gwybodaeth y bydd y Dirprwy Arglwydd Raglaw, Mr David Lewis, yn bresennol yn y gwasanaeth.</i> Information has been received that the Deputy Lord Lieutenant, Mr David Lewis, will be present at the service.
147	CSC / CCC (Arwyn Morris): <i>Diwrnod Hawliau Gofalwyr: Digwyddiad am ddim ar gyfer Gofalwyr.</i> Carers Rights Day: Free event for Carers, 30/11/18 at The Old College, Aberystwyth, 10:30-3:30pm.	<i>Dangosodd y Cyng. Debra Griffiths ddiddordeb i fynychu'r sesiwn.</i> Cllr Debra Griffiths is interested in attending the session.
148	CSC / CCC (Meinir Davies): <i>Cais am gymorth ariannol 2018-19 (Offer Chwarae Pentop).</i> Application for financial assistance 2018-19 (Play equipment for Pentop)	<i>Mae'r clerc wedi cadarnhau y bydd y prosiect wedi ei gwblhau erbyn 1 Mawrth 2019.</i> The clerk has confirmed that the project will be completed by 1 March 2019 (30 October by e-mail)
149	CSC / CCC (Technical Services): <i>Cydnabyddiaeth am gais y cyngor i gywiro'r slabiau tu allan i Neuadd y Dref ac ar gerflun y dwrgi.</i> Acknowledgment of the council request to repair the slabs outside the Guildhall and on the otter statue.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
150	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Taliad o drydedd rhan y praesept.</i> Payment of the third instalment of the precept = £27,998.49	<i>Nodwyd.</i> Noted.
151	CSC / CCC (Elin Prysor): <i>Hysbysiadau Cyhoeddus o gau'r ffordd erbyn Sul y Cadoediad (11/11/18).</i> Notices of road closure for Remembrance Sunday.	<i>Mae'r Bachan Deche wedi gosod yr hysbysiadau.</i> The Handyperson has placed the notices.

152	CSC / CCC (Dana Jones): <i>Rhestr Cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, Ionawr-Mehefin 2019.</i> Meetings of the Ethics and Standards Committee, January-June 2019.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 16 Hydref.</i> Forwarded to all councillors on 16 October.
153	<i>Comisiynydd Iaith: Ymateb i gwyn bod trydydd cwmni ymhen blwyddyn wedi gwrthod derbyn siec wedi ei hysgrifennu yn Gymraeg.</i> Welsh Language Commissioner: Response to the council's complaint that a third company within the year has refused to accept a Welsh-written cheque.	<i>Teimlodd y cyngor yn unfrydol bod rhaid cadw at yr egwyddor.</i> Council agreed to support the Welsh language policy by continuing with the present procedure of Welsh-written cheques.
154	<i>Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru: "Dweud eich dweud heddiw" (Drafft o'r Cynllun Corfforaethol 2019-24),</i> <i>Tesco, Aberteifi, 1/11/18, 9:00-12:30yp.</i> Mid and West Wales Fire & Rescue Service: "Have your say today" (Draft Corporate Plan 2019-24), <i>Tesco, Cardigan, 1/11/18, 9:00-12:30pm.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 4 Hydref.</i> Forwarded to all councillors on 4 October.
155	Mrs Non Davies: <i>Gwybodaeth am gyfarfod cyhoeddus i sefydlu Pwyllgor Cronfa Leol Eisteddfod Ceredigion 2020 ar gyfer ardaloedd Aberteifi.</i> Information regarding the formation of a local fund-raising committee for the Ceredigion National Eisteddfod 2020, Y Man a'r Lle, 15/11/18, 7.00pm.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 5 Tachwedd.</i> Forwarded to all councillors on 5 November.
156	<i>Mrs Sue Lewis, Cydlynnydd y Castell/Castle Co-ordinator: Llythyr yn hysbysu'r cyngor bod Mrs Lewis wedi derbyn sialens newydd yn Arberth.</i> Letter informing the council of Mrs Lewis's decision to commence a new challenge in Narberth.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 23 Hydref.</i> Forwarded to all councillors on 23 October.
157	<i>Prosiect Neuadd Farchnad Aberteifi: Digwyddiad Ymgynghorol, 31 Hydref yn Ystafell Radley.</i> Cardigan Markethall Project: Consultation Event, 31 October in Ystafell Radley. Cardigan Building Preservation Trust is in the process of developing proposals and plans for the delivery of a £1.7 million project to fund, restore, conserve and repair Cardigan Markethall.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 23 Hydref.</i> Forwarded to all councillors on 23 October. <i>Mae'r aelodau wedi derbyn holiadur i'w ddychwelyd.</i> All members were circulated with questionnaires. <i>Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Jones bod y cyngor yn cymeradwyo'r cynlluniau.</i> Cllr Clive Davies proposed that the council approves the plans; seconded by Cllr Richard Jones.
158	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Lansiad Swyddogol GIG111 ar draws Rhanbarth Hywel Dda.</i> Hywel Dda University Health Board: Official Launch of NHS111 across the Hywel Dda Region, 31/10/18.	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed in notice board.
159	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Ymateb i ymholiad y cyngor i drefniant apwyntiadau ysbyty.</i> Response to the council query as to the arrangements for booking hospital appointments. (Council letter sent 12 June 2018.)	<i>Er gwybodaeth, mae copi wedi ei ddarparu i bob cyngorydd.</i> For information, a copy has been supplied to every councillor.
160	Mrs Shan Williams, Tŷ'r Iet, Caemorgan Road: <i>Llythyr yn gofidio am benderfyniadau'r cyngor sir ynglŷn â marwolaethau sydyn.</i> Letter with concerns regarding the sudden death call-out protocol in Ceredigion.	<i>Cynigiwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths bod y cyngor yn anfon llythyr at Mr Peter Brunton yn cefnogi llythyr Mrs Williams.</i> It was proposed by Cllr Yvonne O'Neill and seconded by Cllr Debra Griffiths that the council supports Mrs Williams' concerns and forwards a letter to Mr Peter Brunton (Coroner) with a copy to the Chief Executive of the county council.
161	Jiffy Myers (Regimental Veterans Officer Welsh Guards): <i>Pryderon am nad oes cofeb i Lee Davies yn Aberteifi.</i> Concern at the lack of response to the application that the name of Lance Corporal Lee Davies, who was killed in Afghanistan in 2012, be recorded at the cenotaph.	<i>Mae'r mater yn cael ei drafod gan y cyngor sir.</i> The issue is being discussed by the county council officer Alun Williams who is responsible for the Armed Services Committee Partnership.
162	Mr Simon Rees (Cardigan RFC): <i>Cais am osod bin sbwriel ym Maes Radley.</i> Application to place a litter bin at Maes Radley.	<i>Cytunwyd anfon y cais ymlaen at y cyngor sir.</i> It was agreed to forward the application to the county council streetscene officer.

163	<i>Sioe Sirol Aberteifi: gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i fynychu cinio blynyddol y Sioe.</i> Cardigan County Show: Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Annual Show Dinner at the Cliff Hotel, 3 November at 7.30pm.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> Invitation has been forwarded to the Mayor.
164	<i>Pwyllgor Gefeillio Aberteifi/Brioude: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu'r Cinio Blynyddol.</i> Cardigan/Brioude Twinning Committee: Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Annual Dinner at Cardigan Golf Club, 9 December, 12:00 for 12:30pm.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> Invitation has been forwarded to the Mayor.
165	The Barony of Cemais: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i Ginio'r Maer.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Installation at the Court Leet in the Llwyngwair Manor, Newport, 10 November at 6:30pm.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> Invitation has been forwarded to the Mayor.
166	<i>Cymdeithas Cynnal/Cefnogi Cefn Gwlad: Llythyr o ddiolch am y cyfraniad tuag at gynnal y toiledau.</i> 4CG: Letter of gratitude for the grant to maintain the Feidrfair and Chancery Lane toilets.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
167	<i>Clwb Pêl-droed Maesglas Football Club: Llythyr o ddiolch am y grant.</i> Letter of thanks for the council grant.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
168	Guiding (Cardigan Guides): <i>Llythyr o ddiolch am y grant.</i> Letter of thanks for the council grant.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
169	<i>Ysgol Gerdd Ceredigion: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
170	Audit Trail (2018-19) Archwiliwyd gan y Cyngh. Marilyn Farmer a Shan Williams. Conducted and approved by the above councillors on 16 October.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
171	Mr Ken Griffiths (Internal Auditor): <i>Llythyr yn derbyn gwahoddiad y cyngor i wasanaethu ar gyfrifon 2018-19.</i> Letter accepting the council invitation to audit the 2018-19 accounts.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
172	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Hydref.</i> Handyperson: October Report	<i>I'w drafod tan eitem 11.</i> To be discussed under item 11.

Arwyn Morris: *Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid / Corporate Lead Officer: Customer Contact*
Dana Jones: *Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau / Democratic Services and Standards Officer*
Eifion Evans: *Prif Weithredwr / Chief Executive*
Elin Jones: *Swyddog Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Officer*
Elin Prysor: *Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu*
Corporate Lead Officer: Legal Services and Governance
Stephen Johnson: *Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service*

11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 16 Hydref.

Confirmation of 16 October Sub-committee Minutes.

Tud. 1418 (Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed): Cadeiriwyd cyfarfod blynyddol yr elusen gan y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis ac nid y Dirprwy Faer fel a nodwyd.

Page 1418 (*King George 5th Playing Field*): The Annual General Meeting of the charity was chaired by the Mayor, Cllr John Adams-Lewis, not the Deputy Mayor as recorded.

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Debra Griffiths ac eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer bod cofnodion 16 Hydref yn gywir.

With the above amendment, Cllr Debra Griffiths proposed that the 16 October minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

Materion yn codi / Matters arising

Tud. 1418 (Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed): Cyflwynodd y Maer y brydles rhwng Cyngor Tref Aberteifi a Chlwb Bowlio Aberteifi sydd yn awr yn barod i'w harwyddo yn dilyn sawl blwyddyn o anghytundeb. Oherwydd nad yw'r teclyn i selio'r arfais ar gael, gohiriwyd y ddefod am y tro.

Page 1418 (*King George 5th Playing Field*): The Mayor presented the agreed lease between Cardigan Town Council and Cardigan Bowling Club for signing. Unfortunately, as the press required for the town seal was not to hand, the ceremony was postponed for the time being.

Tud. 1418 (*Gardd Brioude*): Dangoswyd y cynlluniau ynghyd ag argraff artist. Cytunwyd trafod y cynlluniau yn yr Is-bwyllgor.

Page 1418 (*Brioude Garden*): The plans were presented together with an artist's impression. It was agreed to discuss the matter at the next Sub-committee meeting.

Tud. 1418 (*Ffair Aberteifi*): Oherwydd galwadau eraill gan y band, ni chynhelir gorymdaith o Neuadd y Dref i barc y Ffair.

Page 1418 (*Cardigan Fair*): Due to other demands, the band is unable to attend; therefore, the procession from the Guildhall to Cardigan Fair has been cancelled.

***Bachan Deche*: Gosodir y pabi coch o wneuthuriad dur a gynhyrchwyd gan Tomos Davies Farrier Cyf. gerllaw'r senotaff mewn da bryd cyn gwasanaeth y Cadoediad. Ei fwriad yw coffáu diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf (1918-2018)**

Handyperson: The steel poppy manufactured by Tomos Davies Farrier Ltd. will be placed alongside the cenotaph this week in time for the Remembrance Sunday service. Its purpose is to note the centenary of the end of the First World War (1918-2018).

12. Personél / Personnel.

Adolygiad blynyddol y Clerc / Clerk's annual review.

13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) Y Cyng. / Cllr Clive Davies:

- (i) **Parcio am ddim yng nghanol y dref. Gyda'r dechnoleg newydd sydd wedi ei sefydlu gyda'r w-fi, byddai'n hawdd mesur y nifer o geir sydd yn defnyddio'r meysydd parcio yn Aberteifi.**

Free parking in town centres. With the new wi-fi technology recently introduced, it would be a straightforward exercise to assess the number of parking spaces taken up in town.

- (ii) **Arwyddion dialcohol yn y Maes Sgrialu. Cytunwyd bod y Cyng. Davies yn cysylltu gyda'r cyngor sir i osod arwyddion newydd ar y maes sgrialu.**

Alcohol-free signage at the Skateboard Park. It was agreed for Cllr Davies to contact the county council for new signs to be placed at the park.

(b) Y Cyng. / Cllr Graham Evans:

- (i) **Clirio coed o'r afon Teifi.**

Mynegodd y Cyng. Evans ei bryder am yr holl goed sydd yn dal o dan hen bont y dref ac sydd i'w gweld ar ochr ddeheuol yr afon gerllaw'r llwybr i'r Parc Natur yn dilyn y llifogydd diweddar. Ychwanegwyd bod coed a phlanhigion a llanast yn nant y Mwldan gerllaw mynedfa flaen y Theatr. Cytunwyd ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru yn tynnu eu sylw at y pryderon hyn.

Clearing of debris and branches from the Teifi.

Cllr Evans drew the members' attention to the trees and debris deposited under the old bridge in Cardigan following the recent upriver floods on the Teifi.

Likewise, debris has accumulated along the quayside towards the Wildlife Park.

The Mwldan brook near the Theatr Mwldan entrance is also in need of clearing.

(c) Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis:

- (i) **Cyfarfodydd PACT: Awgrym bod yr heddlu yn cyflwyno adroddiad chwarterol i'r cyngor. Cytunwyd bod yr heddlu yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd y cyngor bob chwarter.**

PACT meetings: Suggestion that the police give a quarterly report to the council. It was agreed that the police be invited to attend quarterly council meetings.

(d) Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill:

- (i) **Cwyn am brinder sylw i weithgareddau'r Sgowtiaid mewn seremonïau dinesig.**

Concerns at the general overlooking of the Scouts movement at civic ceremonies.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.05yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.05pm.

Arwyddwyd/Signed (*Cadeirydd/Chairperson*) *Dyddiad/Date*